# Y PWYLLGOR PENODI AELODAU
# DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd W.R.A. Davies (Yr Is-gadeirydd yn Cadeirio)

**Y Cynghorwyr:**
S.L. Davies, B.A.L. Roberts, E.G. Thomas (Yn lle P.M. Hughes) a J.S. Williams

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 1.00 – 1.10pm

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.P. Jenkins A.D.T. Speake.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. AWDURDOD TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd C.P. Higgins wedi ymddiswyddo'n ddiweddar fel aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yr oedd gan y Cyngor bum cynrychiolydd arno. Gan fod y gynrychiolaeth ar yr uchod yn gytbwys yn wleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinydd y Grŵp Llafur ynghylch enwebu aelod i lenwi'r lle gwag, ac roedd enw'r Cynghorydd D.C. Evans wedi'i gynnig.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd D.C. Evans yn un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle'r Cynghorydd C.P. Higgins.**

## 4. Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg

Grefyddol [CYSAG] yr oedd gan y Cyngor bedwar cynrychiolydd arno. Gan fod y gynrychiolaeth ar yr uchod yn gytbwys yn wleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ynghylch enwebu aelod i lenwi'r lle gwag, ac roedd enw'r Cynghorydd M.J.A. Lewis wedi'i gynnig.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M.J.A. Lewis yn un o gynrychiolwyr y Cyngor ar SACRE yn lle'r Cynghorydd H.A.L. Evans.**

## 5. CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd A. Lenny wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Llyfrau Cymru a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd S.E. Thomas yn lle'r Cynghorydd A. Lenny ar Gyngor Llyfrau Cymru.**

## 6. BWRDD RHEOLI CYMDEITHAS TAI CANTREF

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd E. Dole wedi ymddiswyddo fel sylwedydd ar Fwrdd Rheoli Cymdeithas Tai Cantref a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M.J.A. Lewis yn sylwedydd y Cyngor ar Fwrdd Rheoli Cymdeithas Tai Cantref yn lle'r Cynghorydd E. Dole.**

## 7. CYNGOR CYMRU I'R DEILLION - GRŴP LLYWIO RHANBARTHOL (A ELWID GYNT Y PWYLLGOR GWAITH)

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd P.E.M. Jones wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Cymru i'r Deillion - Grŵp Llywio Rhanbarthol a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd K.P. Thomas ar Gyngor Cymru i'r Deillion - Grŵp Llywio Rhanbarthol yn lle'r Cynghorydd**

**P.E.M. Jones.**

**8. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2015, gan eu bod yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ____________________________ | ____________________ |
| **Y CADEIRYDD** | **Y DYDDIAD** |

**1.**

**2.**

**1.1.**

1.2.